

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

# GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

# CYNLLUN GWEITHREDU HINSAWDD CYMUNEDOL

# DYFFRYN NANTLLE







# CYNNWYS


Cefndir ........ 4

Canllawiau Gweithredu ........ 5

Gweithredoedd ........ 6

Gwybodaeth Bellach ........ 12

## > CEFNDIR

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn wedi ei lunio gan drigolion o Ddyffryn Nantlle a ddaeth at ei gilydd mewn Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd rhwng Mehefin 2022 a Ionawr 2023.

GwyrddNi, mudiad gweithredu ar newid hinsawdd fu'n trefnu a hwyluso'r Cynulliadau mewn cydweithrediad ac Yr Orsaf, ein partner lleol yn Nyffryn Nantlle. Arianwyd y gwaith gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Cynhaliwyd rhaglen addysg mewn ysgolion lleol a phedair sesiwn gyda'r aelodau yn y gymuned er mwyn dysgu, rhannu a thrafod cyn cydweithio i ateb y cwestiwn: Sut allwn ni yn Nyffryn Nantlle ymateb yn lleol i Newid Hinsawdd?

Mae'r atebion i'w gweld yn y Cynllun Gweithredu hwn. Mae gwahoddiad nawr i unrhyw un o'r ardal sydd â diddordeb i ymuno ar y daith i wireddu'r syniadau hyn.




DEG
Datblygiadau Egni Gwledig

YR ORSAF

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND





## > CANLLAWIAU GWEITHREDU

Cyn i chi ddarllen y syniadau gweithredu, dyma'r pum canllaw gweithredu a luniwyd gan aelodau'r Cynulliad:

1. Lle mae effaith ar yr iaith Gymraeg, dylai fod yr effaith hwnnw yn un positif
2. Dylai pob gweithred fod yn gynaliadwy yn gymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol
3. Dylai pob gweithred fod yn hunan-gynhaliol
4. Dylai cynyddu lle i bobl a natur fod yn ganolog i bob gweithred
5. Dylid ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'r gymuned, er mwyn newid y naratif o gwmpas cynaliadwyedd amgylcheddol, er mwyn bod yn ddiwylliannol gynhwysol, i gofleidio amrywiaeth ac i annog mewnbwn pobl ifanc, a phobl gyda rhinweddau gwarchodedig eraill

# > GWEITHREDOEDD

| Y Syniad | Manylion | Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|---|
| CARTREFI CLYD, GWELL, YN NYFFRYN NANTLLE | Codi safon tai - hen a newydd - yn cynnwys ynni<br>Creu canllawiau safon tai lleol (hen a newydd); trwy wneud ymchwil, trafod efo trigolion, datblygwyr, Cymdeithasau tai, Llywodraeth Leol a chenedlaethol. Yna annog pobl i fabwysiadu'r canllawiau.<br>Gweithio efo'r Ganolfan Ddatgarboneiddio i sgilio pobl a chwmniau, creu cartrefi arddangos efo engreifftiau o dechnoleg wahanol, creu rhaglen addysg.<br>Creu cynllun i hyrwyddo'r rhaglenni ariannu, a cheisio dennu rhaglen deledu | Llai o ddibyniaeth ar danwyddau ffossil<br>Lleihau defnydd ynni<br>Gwytnwch ynni<br>Pobl yn iachach, ac yn defnyddio llai<br>Gwell i fioamrywiaeth<br>Byddwn yn ffendio iaith sy'n cysylltu â phobl | Sefydlu gwasanaeth cyngor sy'n gysylltiedig efo'r argyfwng costau byw, yn cynnwys dosbarthu mesurau syml.<br>Sefydlu perthynas gyda'r Ganolfan Dadgarboneiddio, Cyngor Gwynedd a chymdeithasau tai, i hyrwyddo gwasanaeth cyngor ynni ac ôl-osod.<br>Hyrwyddo enghreifftiau o fesurau sydd wedi gweithio, a rhoi cyngor di-duedd am yr opsiynau.<br>Adeiladu ymddiried rhwng trigolion a darparwyr. |



# > GWEITHREDOEDD

| Y Syniad | Manylion | Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|---|
| BWYDO DYFFRYN NANTLLE | Cynhyrchu - Cadw - Coginio: o'r plot i'r plat<br>Cynhyrchu: Lleiniau ym mhob pentref, dysgu pawb i gynhyrchu a thyfu bwyd, a gwerthu a rhannu<br>Cadw: bragu, piclo, jamio, sychu, mygu - dysgu a rhannu'r sgiliau<br>Coginio: dysgu pawb, hybu iechyd a lles, sgiliau coginio'n rhad, ryseitiau a llyfrau, pantri - storfa rannu, iechyd a diogelwch bwyd<br>Hybu cydweithio rhwng pentrefi, a rhwng mentrau sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal | Gweithredu yn lleol yn arbed milltiroedd bwyd<br>Codi ymwybyddiaeth a newid agweddau<br>Creu profiadau cymdeithasol a thrawsgenedlaethol<br>Lleihau gwastraff<br>Hybu economi lleol a cylchol, a hunangynhaliaeth. | Cefnogi Hwb Bwyd Yr Orsaf.<br>Cefnogi Pantri Cymunedol Yr Orsaf - dosbarthu bwyd, cyrsiau coginio ayyb.<br>Datblygu'r Farchnad Cynhyrchwyr lleol.<br>Datblygu rhandiroedd mewn pentrefi lle mae nhw eu heisiau. |
| CWT PICLO | Creu gofod i hwyluso addysg a chynhyrchiant o draddodiadau cadw bwyd hen a newydd<br>Sefydlu grwp bach 'piclo' sydd eisiau dysgu gan arbenigwyr a mentrau cadw bwyd<br>Creu gofod i ddysgu ac arbrofi efo'n gilydd.<br>Eirioli dros fwyta'n lleol ac yn iach, a buddion iechyd perfedd<br>Byddai'r gobeithion hir dymor yn cynnwys creu cwmni budd cymunedol a denu plant i astudio gwyddoniaeth a microfioleg. | Lleihau gwastraff bwyd<br>Cadw bwyd yn lleol felly'n lleihau milltiroedd bwyd<br>Diogelu systemau bwyd wrth i'r hinsawdd newid<br>Cymuned iach, fwy gwydn | Cefnogi'r grŵp cwt piclo i ddatblygu'r syniad, canfod cartref, ffurfio yn gyfreithiol.<br>Helpu'r cwt piclo i lansio'r prosiect.<br>Creu cyswllt efo Prosiect Hwb Bwyd Yr Orsaf. |

## > GWEITHREDOEDD

| Y Syniad | Manylion | Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|---|
| YNNI CYMUNEDOL | Cynhyrchu ynni adnewyddadwy at ddefnydd a budd lleol<br>Ymchwil - beth yw'r adnoddau sydd ar gael i gynhyrchu egni, beth yw'r cyfleoedd, pa ymchwil sy'n bodoli eisoes, pa brosiectau ynni sy'n bodoli eisoes, beth yw'r ol troed egni, pwy all weithio gyda ni, a pa gyllid sydd ar gael?<br>Ymgysylltu: cysylltu efo Ynni Lleu, cysylltu efo sefydliadau sy'n bodoli eisoes, a chysylltu efo y gymuned leol a rhanddeiliaid<br>Rhaid cysylltu y prosiect ynni i'r prosiect cartrefi er mwyn lleihau defnydd ynni | Lleihau ôl-troed carbon a defnydd o danwydd ffosil<br>Cynyddu egni cymunedol lleol<br>Gwarchod rhag newidiadau sydyn ym mhris egni<br>Cynyddu ymwybyddiaeth o ddefnydd egni, gan arwain at newid ymddygiad<br>Ased ariannol, dan berchnogaeth gymunedol, a all gael ei ddefnyddio er budd lleol<br>Lleihau pris egni | Ymchwil ar greu grid ynni lleol - adnabod y cyfleoedd, partneiriaid ayyb.<br>Edrych ar enghrefftiau llwyddiannus gridiau lleol, a defnyddio'r profiad i ddatblygu cynllun i'r Dyffryn.<br>Mapio safleoedd potensial i greu ynni cymunedol.<br>Datblygu'r cyfleoedd gorau fel mentrau cymunedol. |

## > GWEITHREDOEDD

| Y Syniad | Manylion | Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|---|
| GWEITHRE-DOEDD DYFFRYN NANTLLE | Sefydlu a chynnal gwefan ac arwyddion gweledol yn hyrwyddo a chysylltu mentrau cymunedol gwyrdd yn Nyffryn Nantlle | Cysylltu sefydliadau a mentrau lleol<br>Creu a chryfhau tir cyffredin rhwng gweithredu gwyrdd<br>Rhoi sylw i'r gwaith sy'n digwydd yn barod<br>Rhannu cyngor | Mapio sefydliadau a mentrau presenol<br>Gweithio gydag Ysgolion Lleol er mwyn dylunio logo trawiadol.<br>Ymchwil i ddarparwyr gwefannau. |


SYNIAD - IDEA
DISGRIFIO MEWN 7 GAIR
DESCRIBE IN 7 WORDS
CAMAU NESA - NEXT STEPS

# > GWYBODAETH BELLACH

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD
GWYRDDNI
COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

## Cefnogi a Chysylltu

Diolch i chi am ddarllen Cynllun Gweithredu Hinsawdd Cymunedol Dyffryn Nantlle. Gobeithio ei fod wedi sbarduno awydd i weithredu! Os hoffech chi ddysgu mwy am y syniadau sydd yn y Cynllun yma, neu eu cefnogi mewn unrhyw ffordd, cysylltwch heddiw: nantlle@gwyrddni.cymru. Byddwn yn falch iawn o glywed gennych ac yn croesawu eich cefnogaeth.

## Adroddiad Llawn

Os hoffech gael trosolwg mwy manwl o broses gynulliadol GwyrddNi, y mudiad, partneriaid y bum ardal, y rhaglen addysg a llawer mwy ewch i:
https://www.gwyrddni.cymru/ynglyn-a-gwyrddni/

## Cynlluniau Gweithredu

Gallwch weld Cynlluniau Gweithredu holl ardaloedd GwyrddNi yma:
https://www.gwyrddni.cymru/cynlluniau-gweithredu/

I ymuno a rhestr bostio'r ardal - anfonwch ebost at nantlle@gwyrddni.cymru

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD GWYRDDNI COMMUNITY • CLIMATE • ACTION
DEG Datblygiadau Egni Gwledig
CWMNI BRO FFESTINIOG
PARTNERIAETH OGWEN
YR ORSAF
CYD YNNI
Ynni Llŷn
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND